Cyngor Cymuned Llaneilian (392)
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Mehefin 26, 2026 am 6.30yh drwy TEAMS.

Presennol: Alan Williams, Patsy Allen, Dafydd Griffiths, Carol Whitaker, Gordon Hayes, Ian Evans, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Alison Williams, James Roe

1 Croeso

Bu Alan Williams gadeirio'r cyfarfod a chroesawu pawb yn bresennol, bu diolch i bawb am ymuno a'r cyfarfod ychwanegol oedd wedi ei drefnu er mwyn cymeradwyo'r adroddiadau perthnasol ar gyfer yr archwiliad o fewn yr amserlen oedd wedi ei osod gan Archwilio Cymru.

2 Datgan Diddordeb

Dim o'r newydd.

3 Ystyried a Chymeradwyo Adroddiad Blynyddol yn dilyn Archwiliad Mewnol 2025/26

Cadarnhawyd bod y ffurflen blynyddol ac adroddiad yr archwiliwr mewnol wedi ei ddosbarthu i'r aelodau drwy ebost cyn y cyfarfod. Bu ystyried a chadarnhau'r datganiadau llywodraethu gan nodi nad oedd y Cyngor yn gymwys ar gyfer pwer cymhwysedd cyffredinol (general power of competence).

Bu cydnabod adroddiad yr archwiliwr mewnol a bu cymeradwyo'r datganiadau ariannol yn unol a chanfyddiadau'r archwiliwr mewnol. Nodwyd bod y ffigyrau ar y ddogfen wedi eu cymeradwyo gan yr archwiliwr yn dilyn arolwg ac adolygiad o waith y clerc a'r dogfennau perthnasol yn ymwneud a chyfrifon y Cyngor. Teimlwyd bod adroddiad archwiliad mewnol 2025/26 yn ateb y chwestiynnau oedd wedi eu codi yn adroddiad yr archwiliwr allannol 2024/25. Bu'r aelodau yn unfrydol bod yr archwiliwr mewnol wedi cwblhau'r dasg yn foddhaol.

Bu'r aelodau yn unfrydol derbyn y ddogfen a'i gyflwyno i Archwilio Cymru ar gyfer yr archwiliad allannol.

4 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn am 7yh nos Fawrth, Gorffennaf 14, 2026

Bu'r cyfarfod orffen am 6.50yh

Alan Williams,
Cyngor Cymuned Llaneilian
CET06/2026